Rhaglen Gyflawn

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD GWENER, 26AIN IONAWR, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)**


Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**


(Dosbarthwyd 19 Ionawr 2024)

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Aelodau Cyngor

Cyng. Jason McLellan - Cyngor Sir Ddinbych
Cyng. Llinos Medi Huws - Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Charlie McCoubrey - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyng. Mark Pritchard - Cyngor Wrecsam
Cyng. Ian Roberts - Cyngor Sir y Fflint
Cyng. Dyfrig L Siencyn - Cyngor Gwynedd

Aelod Eryri

Cyng. Annwen Hughes – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Prif Swyddogion

Dafydd Gibbard - Cyngor Gwynedd – Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor
Dylan Williams - Cyngor Sir Ynys Môn
Rhun ap Gareth - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Neal Cockerton - Cyngor Sir y Fflint
Graham Boase - Cyngor Sir Ddinbych
Ian Bancroft - Cyngor Wrecsam
Emyr Williams – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Swyddogion Statudol

Dewi Aeron Morgan – Prif Swyddog Cyllid
Iwan G Evans – Swyddog Monitro

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2023 fel rhai cywir.

## 5. CYLLIDEB 2024/25 CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD AC ARDOLL AR AWDURDODAU CYFANSODDOL 7 - 13

Cymeradwyo Cyllideb 2024/25 y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd.

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD
24/11/23**

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd)

**Y Cynghorwyr:** Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), David Bithell (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Christine Jones (Cyngor Sir y Fflint) a Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).

**Sylwedydd:** Y Cynghorydd Barry Mellor (Cyngor Sir Ddinbych).

**Prif Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd), Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Linda Roberts (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Gary Williams (Cyngor Sir Ddinbych) ac Emyr Williams (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Swyddog Statudol**
Iwan G Evans (Swyddog Monitro)

**Swyddogion eraill yn bresennol**
Alwen Williams (Prif Weithredwr Dros Dro y CBC), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

- Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn) gyda'r Cynghorydd Gary Pritchard yn dirprwyo;
- Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) gyda'r Cynghorydd David Bithell yn dirprwyo;
- Y Cynghorydd Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint) gyda'r Cynghorydd Christine Jones yn dirprwyo;
- Y Cynghorydd Annwen Hughes (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri);
- Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) gyda Gary Williams yn dirprwyo;
- Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) gyda Linda Roberts yn dirprwyo.
- Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid).

Anfonwyd dymuniadau gorau'r Bwrdd i'r Cynghorydd Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint) oedd yn yr ysbyty.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 27 Hydref, 2023, fel rhai cywir.

## 5. IS-BWYLLGOR SAFONAU – PENODI AELODAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Evans, Swyddog Monitro.

**PENDERFYNWYD:**

1. **Mabwysiadu addasiadau i Gylch Gorchwyl yr Is Bwyllgor Safonau fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.**
2. **Mabwysiadu y meini prawf ar gyfer penodi aelodau annibynnol i'r Pwyllgor Safonau a Sefydlu Panel Cyfweld yn unol ag Atodiad 2.**
3. **Dirprwyo trefnu y broses penodi i'r Swyddog Monitro.**

**TRAFODAETH**

Nododd y Swyddog Monitro ei fod braidd yn siomedig ynglŷn â'r newid i benodi aelodau annibynnol drwy broses statudol gan fod hynny'n golygu mynd drwy broses hysbysebu, cyfweld a phenodi, ac nad proses hawdd oedd cael ymgeiswyr.

Ategwyd y sylw a nodwyd bod y newidiadau deddfwriaethol hyn yn golygu cost ychwanegol a llwyth gwaith ychwanegol.

Mewn ymateb i gwestiwn, nododd y Swyddog Monitro y gallai addasu'r meini prawf fel bod modd i'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd enwebu aelod arall o'r Cyd-bwyllgor i ddirprwyo drostynt ar y Panel Cyfweld.

Awgrymwyd y gellid hepgor y frawddeg '*Dim ond aelod annibynnol (Lleyg) o'r pwyllgor safonau all fod yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd'* o'r Cylch Gorchwyl gan y byddai holl aelodau'r pwyllgor safonau yn aelodau lleyg beth bynnag.

## 6. CYNLLUN GWEITHREDU DRAFFT AR GYFER DATBLYGU CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL NEWYDD I OGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro'r CBC.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu drafft arfaethedig i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.**

**TRAFODAETH**

Cwestiynwyd a fyddai'n ymarferol bosib' cyflwyno'r fersiwn terfynol o'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd Mawrth 2025, o ystyried maint y gwaith sydd angen ei gwblhau a'r arbenigedd sydd ei angen i ddarparu prosiect enfawr o'r math yma, yn enwedig yn wyneb cyhoeddiad Llywodraeth y DU ynglŷn â'r gwaith o drydaneiddio rheilffordd arfordir y Gogledd, sydd hefyd yn ddarn enfawr o waith. Mewn ymateb, nododd Prif Weithredwr Dros Dro'r CBC:-

- Bod rhanbarthau eraill wedi mynegi pryder ynglŷn â'r amserlenni hefyd, ond er nad oedd wedi gweld yr adroddiad terfynol, roedd y Comisiwn Trafnidiaeth wedi cyflawni llawer iawn o waith yng Ngogledd Cymru dros y 18 mis diwethaf a byddai yna lawer o ddata yn sail i gasgliadau'r adroddiad fyddai'n ddefnyddiol, yn arbennig o ran creu'r achos dros newid.
- Y credai y byddai'n rhaid comisiynu gwaith i ymgynghorwyr ag arbenigedd, yn arbennig o amgylch yr Asesiad Ardrawiad Amgylcheddol, yn ogystal â chynnal adolygiad annibynnol o'r cynlluniau yng Ngogledd Cymru. Byddai hynny, yn amlwg,

yn ddibynnol ar argaeledd ac amserlenni o fewn yr asiantaethau a allai ymateb i'r math yna o waith.

- Y credai y byddai'n rhaid adolygu'r amserlenni wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen ac wrth i ni gyrraedd y cerrig milltir, ond roedd yn optimistaidd ar hyn o bryd y gellid cyflawni'r gofynion erbyn Mawrth 2025.
- Y byddai'n adrodd yn ôl i'r Cyd-bwyllgor yn rheolaidd ar gynnydd, gan amlygu unrhyw risgiau, ac yn sgil cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu, byddai'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth yn cael ei sefydlu i arwain ar y gwaith.
- Y credai y byddai hynny'n elfen gritigol hefyd yn ogystal â sicrhau ein bod yn cadw at yr amserlen ac at y gyllideb ac yn adrodd yn ôl yn briodol i'r CBC.

Mewn ymateb i gyfres o gwestiynau, eglurodd Prif Weithredwr Dros Dro'r CBC:-

- Y byddai'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth yn rhoi cyfeiriad i'r cynllun a chyfeiriad i'r swyddogion i arwain ar greu'r cynllun a pharatoi'r gwaith.
- Bod y Llywodraeth wedi mynd drwy broses o gymeradwyo mewnol ar gyfer cynlluniau drafft y 4 rhanbarth a byddent yn dyfarnu, ac yn ein hysbysu, o fewn yr wythnosau nesaf gobeithio, ynglŷn â'r cyllid fydd yn dod yn ei flaen.
- Y disgwylid hyd at £125,000 i helpu gyda'r gwaith o ddatblygu'r cynllun.
- Y byddai rhywfaint o'r arian yn cael ei wario ar ymgynghorwyr. Byddai angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, a byddai yna gostau ynghlwm â hynny mae'n debyg. Byddai yna gost hefyd ynghlwm â'r gwaith o wneud yr Asesiad Ardrawiad Amgylcheddol.
- Y bu'n ymgysylltu gyda swyddogion pob awdurdod yn y Gogledd i greu'r cynllun drafft yn y lle cyntaf, a'i bod yn rhagweld, unwaith y byddai'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth wedi'i sefydlu ac yn weithredol, y byddai yna bwyllgor o swyddogion i helpu hefyd.
- Bod yna arbenigedd trafnidiaeth yn eistedd o fewn y cynghorau a'i bod yn bwysig eu bod hwy yn teimlo bod ganddynt berchnogaeth a'r gallu i arwain ar y cynllun hefyd.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben am 14:30.

________________________________
(Cadeirydd)

# ADRODDIAD I GYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

## 26/01/2024

**Teitl:** Cyllideb 2024/25 Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac Ardoll ar Awdurdodau Cyfansoddol

**Awduron:** Dewi A Morgan, Pennaeth Cyllid (Prif Swyddog Cyllid y CBC)
Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Mae'n ofyniad statudol i Gyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd gymeradwyo ei gyllideb mewn cyfarfod o'r CBC erbyn 31 Ionawr yn flynyddol.

1.2 Mae'r gyllideb sydd yn yr atodiadau wedi ei rhannu i adlewyrchu strwythur y CBC, sef Cynllunio Strategol, Trafnidiaeth, Parthau Buddsoddi a swyddogaethau corfforaethol, ac wedi ei dadansoddi fesul pennawd gwariant. Mae hyn yn caniatáu i gyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol gael eu codi drwy ardoll ar wahân ar gyfer y swyddogaethau 'Cynllunio' ac 'Eraill'.

**2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR**

**2.1 Cymeradwyo Cyllideb 2024/25 y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd fel y'i cyflwynir yn yr atodiad. Cymeradwyo'r gyllideb fel nodir isod:-**

- **Cynllunio Strategol (6 Arweinydd a Cadeirydd Parc – mwyafrif syml, cworwm = 5)**
- **Swyddogaethau Eraill y CBC yn cynnwys Trafnidiaeth (6 Arweinydd – mwyafrif syml, cworwm = 5).**

| Cynllunio Strategol | Trafnidiaeth | Cyd-Bwyllgor Corfforedig | Cyfanswm Cyllideb |
|---|---|---|---|
| £ | £ | £ | £ |
| 371,250 | 182,750 | 210,820 | 764,820 |

**2.2 Cymeradwyo'r ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol, fel nodir isod:**

- **Cynllunio Strategol (Unfrydedd, cworwm = 7)**
- **Swyddogaethau eraill (Unfrydedd, cworwm = 6)**

| | **Cynllunio Strategol** | **Swyddogaethau eraill** | **Cyfanswm Ardoll** |
|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (58,510) | (65,370) | (123,880) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (52,080) | (55,220) | (107,300) |
| Cyngor Sir y Fflint | (83,780) | (88,830) | (172,610) |
| Cyngor Gwynedd | (53,870) | (67,260) | (121,130) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (37,230) | (39,480) | (76,710) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (73,010) | (77,410) | (150,420) |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | (12,770) | | (12,770) |
| **Cyfanswm Ardoll** | **(371,250)** | **(393,570)** | **(764,820)** |

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1 Mae Rheoliadau 16 ac 17 o'r Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021 yn manylu ar y broses i gytuno ac ariannu'r costau.

3.2 Unwaith eto, ar gyfer 2024/25 argymhellir bod y gyllideb yn cael ei hariannu drwy ardoll a ddosrannwyd rhwng yr awdurdodau cyfansoddol yn seiliedig ar y boblogaeth sy'n berthnasol i'r maes gwaith.

## 4. CEFNDIR

4.1 Mae'r gyllideb wedi ei selio ar y 'swyddogaethau cychwynnol' y CBC, sef paratoi, monitro, adolygu a diwygio y Cynllun Datblygu Strategol a datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

4.2 Mae cyfanswm y gyllideb net ar gyfer 2024/25 wedi parhau ar lefel 2023/24 o £764,820, ond mae'r ffigyrau poblogaeth wedi'u diweddaru.

4.3 Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i drosglwyddo Uchelgais Gogledd Cymru (UGC) i fod o fewn y grym llesiant economaidd o'r CBC, ond gan na fydd y trosglwyddiad yn digwydd tan ganol y flwyddyn, bydd cyllideb ar wahân yn cael ei sefydlu ac yna ei throsglwyddo yn ystod y flwyddyn.

4.4 Bydd adroddiadau monitro cyllideb yn cael eu cyflwyno yn rheolaidd i'r CBC yn ystod y flwyddyn, a bydd unrhyw faterion yn cael eu hamlygu a chamau priodol yn cael eu cymryd.

**5. PENAWDAU'R GYLLIDEB**

5.1 Gweithwyr

Cyflwynwyd adroddiad ar "Adnoddau Swyddogaethau Statudol" i'r CBC yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2023, ac mae'r gyllideb ar gyfer 2024/25 yn seiliedig ar y strwythur staffio hwn. Mae'n cynnwys Prif Weithredwr dros dro (2 ddiwrnod yr wythnos), Cynorthwyydd Personol (1 diwrnod yr wythnos), Rheolwr (Swyddogaethau Statudol), Rheolwr Prosiect (1 diwrnod yr wythnos), tair swydd Cynllunio ac un swydd Trafnidiaeth. Mae amcangyfrif chwyddiant o 6% wedi ei roi ar gyfer 2024/25.

5.2 Mae cost lwfans i aelodau lleyg yn seiliedig ar dri aelod ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a saith aelod ar gyfer y Pwyllgor Safonau.

Teithio

5.3 Mae'r gyllideb teithio yn seiliedig ar amcangyfrif o lwfansau teithio hanfodol a chynhaliaeth staff.

Cyflenwadau a gwasanaethau

5.4 Mae'r pennawd yma yn cynnwys cyllidebau ar gyfer offer a chyfarpar, cyflenwadau amrywiol, ymgysylltu a chyfarfodydd, ffioedd archwilio, ymgynghorwyr allanol ac yswiriant.

5.5 Ar hyn o bryd mae gan y CBC yswiriant cysgodol fel rhan o bolisi yswiriant Cyngor Gwynedd, ond bydd y trefniant dros dro hwn yn dod i ben unwaith y bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cael ei drosglwyddo, a bydd y CBC angen ei yswiriant ei hun. Mae'r gyllideb yswiriant uwch yn amcangyfrif cychwynnol yr ydym wedi ei dderbyn gan gynghorydd yswiriant mewnol Cyngor Gwynedd.

Gwasanaethau Cefnogol

5.6 Mae angen gwasanaethau cefnogol i hwyluso gwaith y Cyd-Bwyllgor, ac mae'r gyllideb ar gyfer 2024/25 yn cynnwys cefnogaeth gwasanaethau Cyllid, Cyfreithiol (gan gynnwys y Swyddog Monitro a mewnbwn cyfreithiol i Cynllunio a Thrafnidiaeth), Cefnogaeth Gorfforaethol (Pwyllgorau, Cyfieithu ac Adnoddau Dynol) a Thechnoleg Gwybodaeth (costau unwaith ac am byth ynghyd â chefnogaeth a thrwyddedau).

5.7 Bydd ystod y gwasanaethau a'r amcangyfrif costau yn cael eu trafod eto wrth i'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth gael eu ffurfio.

Costau sefydlu

5.8 Mae'r pennawd costau sefydlu wedi'i ychwanegu ar gyfer 2024/25 ac mae'n cynnwys cyllideb ar gyfer y costau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â throsglwyddo UGC i'r CBC yn ogystal â chyllideb ar gyfer y Parthau Buddsoddi. Bydd angen trafod y comisiynu gwaith sy'n gysylltiedig â'r pennawd Parthau Buddsoddi ymhellach yn ystod y flwyddyn wrth i fwy o wybodaeth ddod ar gael.

Incwm

5.9 Mae'r CBC wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais i Lywodraeth Cymru am gyllid tuag at y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, a dangosir eu dyraniad 2024/25 o £100,000 yn y gyllideb, a bydd yn cyfrannu tuag at gostau staff ac ymgynghorwyr allanol yn ystod y flwyddyn.

5.10 Mae cyfraniad o £198,420 o'r gronfa wrth gefn hefyd yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r gyllideb, a bydd balans y gronfa wrth gefn yn cael ei hadolygu yn ystod y flwyddyn.

**6. CYFRANIADAU PARTNERIAID**

6.1 Rhannwyd cyfraniadau partneriaid yn seiliedig ar y ffigurau poblogaeth a ddefnyddiwyd yng nghyfrifiad setliad 2024/25, ac er bod cyfanswm y gyllideb net a ddefnyddir i gyfrifo'r ardoll yn parhau ar lefel 2023/24 o £764,820, mae newidiadau yn y ffigyrau poblogaeth hyn yn golygu y bydd pedwar o'r awdurdodau (Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Ynys Môn a Wrecsam) yn gweld cynnydd bychan yn eu hardoll, tra bydd tri

awdurdod (Conwy, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri) yn gweld gostyngiad bychan yn eu hardoll.

6.2 Yn unol â'r ddeddfwriaeth, bydd cyllideb gyffredinol y CBC a'r gyllideb Trafnidiaeth yn cael eu hariannu gan chwe awdurdod y Gogledd, tra bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn cyfrannu tuag at y gyllideb Cynllunio Strategol (lle bydd ganddynt bleidlais).

**7. ASESIAD ARDRAWIAD**

7.1 Mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn ddarostyngedig i ddyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

7.2 Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol dan Deddf Cydraddoldeb 2010 yma, wrth wneud penderfyniadau, mae rhaid i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig dalu sylw dyledus i'r angen i (1) ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig. Gan fod gosod cyllideb yn disgyn o fewn penderfyniadau all eu hystyried yn strategol, mae'r dyletswydd i roi sylw dyledus i weithredu mewn modd sydd wedi ei ddylunio i leihau anghydraddoldebau sydd yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Gan fod y Cyd-Bwyllgor Corfforedig dal yn ei flynyddoedd cynnar, ni ystyrir fod unrhyw ardrawiadau penodol yn deillio o'r penderfyniadau sydd gerbron.

7.3 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Gan ddal sylw at y cyd destun, mae'r argymhellion yn gydnaws â'r dyletswyddau yma.

## 8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

8.1 Mae Rheoliadau 16 ac 17 o'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021 yn manylu ar y broses i gytuno ac ariannu'r costau. Mae'r rheoliadau yn gosod gofynion penodol ynglŷn â cyfrifo a chymeradwyo gofynion cyllideb (Rheoliad 16) ac yna, fel ail gam, cytuno cyfraniadau ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol (Rheoliad 17). Yn ôl statud, rhaid i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig fabwysiadu'r Gyllideb erbyn 31 Ionawr 2024. **Petai y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn methu â chytuno y cyfraniadau, yna mae gan Weinidogion Cymru rym statudol i gyfarwyddo ar ddosraniad y cyfraniadau.**

8.2 Fe nodir yn y penderfyniadau a geisir fod gofynion penodol ynglŷn â cworwm a pleidleisio yn perthyn i'r penderfyniadau yma. Felly, mae angen sicrhau fod y pleidleisio yn cael ei drefnu mewn modd sydd yn adlewyrchu ar yr un llaw hawliau pleidleisio penodol sydd yn ynghlwm â gosod y gyllideb ac ar y llaw arall yr angen am unfrydedd ar y penderfyniadau ar yr ardoll eto gan wahanu y ddwy elfen.

---

**ATODIADAU**

Atodiad A - Cyllideb Refeniw 2024/25 Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yn crynhoi y gofynion technegol sydd yn ynghlwm a'r penderfyniadau yma ynghyd a'r dyletswyddau statudol sydd ynglŷn a sefydlu cyllideb ar ardoll.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad hwn.

**Cyllideb Refeniw 2024/25 Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd.**

**Atodiad A**

| **Gwariant** | **Cynllunio Strategol (£)** | **Trafnidiaeth (£)** | **Parthau Buddsoddi (£)** | **Cyd-Bwyllgor Corfforedig (£)** | **Cyfanswm Cyllideb (£)** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithwyr** | | | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 222,440 | 111,540 | 0 | 95,380 | 429,360 |
| Lwfans aelodau lleyg | 0 | 0 | 0 | 4,880 | 4,880 |
| **Cyfanswm Gweithwyr** | **222,440** | **111,540** | **0** | **100,260** | **434,240** |
| **Teithio** | | | | | |
| Teithio a chynhaliaeth | 3,000 | 2,000 | 0 | 1,000 | 6,000 |
| **Cyfanswm Teithio** | **3,000** | **2,000** | **0** | **1,000** | **6,000** |
| **Cyflenwadau a gwasanaethau** | | | | | |
| Offer a chyfarpar | 4,500 | 3,000 | 0 | 0 | 7,500 |
| Cyflenwadau amrywiol | 1,000 | 1,000 | 0 | 1,000 | 3,000 |
| Ymgysylltu a chyfarfodydd | 770 | 770 | 0 | 3,830 | 5,370 |
| Ffioedd Archwilio Cymru | 0 | 0 | 0 | 21,100 | 21,100 |
| Ymgynghorwyr allanol | 132,500 | 132,670 | 0 | 10,000 | 275,170 |
| Yswiriant | 15,000 | 15,000 | 0 | 30,000 | 60,000 |
| **Cyfanswm Cyflenwadau a gwasanaethau** | **153,770** | **152,440** | **0** | **65,930** | **372,140** |
| **Gwasanaethau Cefnogol** | | | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 0 | 0 | 0 | 28,210 | 28,210 |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 7,500 | 7,500 | 0 | 15,000 | 30,000 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 8,330 | 7,730 | 0 | 19,620 | 35,680 |
| Technoleg Gwybodaeth | 2,310 | 1,540 | 0 | 3,120 | 6,970 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol** | **18,140** | **16,770** | **0** | **65,950** | **100,860** |
| **Costau sefydlu** | | | | | |
| Cyfreithiol | 0 | 0 | 0 | 50,000 | 50,000 |
| Parthau Buddsoddi | 0 | 0 | 100,000 | 0 | 100,000 |
| **Cyfanswm Costau sefydlu** | **0** | **0** | **100,000** | **50,000** | **150,000** |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwariant** | **397,350** | **282,750** | **100,000** | **283,140** | **1,063,240** |
| **Llywodraeth Cymru - Grant Cynllun Trafnidaieth Rhanbarthol** | 0 | (100,000) | 0 | 0 | **(100,000)** |
| **Cyfraniad o gronfa** | (26,100) | 0 | (100,000) | (72,320) | **(198,420)** |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwariant Net** | **371,250** | **182,750** | **0** | **210,820** | **764,820** |

| **Incwm** | **Cynllunio Strategol (£)** | **Swyddogaethau eraill (£)** | **Cyfanswm Ardoll (£)** | **Ardoll 2023/24** | **(Cynnydd)/ Gostyngiad** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfraniadau Partneriaid drwy ardoll** | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (58,510) | (65,370) | (123,880) | (126,730) | 2,850 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (52,080) | (55,220) | (107,300) | (104,630) | (2,670) |
| Cyngor Sir y Fflint | (83,780) | (88,830) | (172,610) | (171,460) | (1,150) |
| Cyngor Gwynedd | (53,870) | (67,260) | (121,130) | (125,680) | 4,550 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (37,230) | (39,480) | (76,710) | (75,950) | (760) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (73,010) | (77,410) | (150,420) | (147,150) | (3,270) |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) | (12,770) | | (12,770) | (13,220) | 450 |
| **Cyfanswm Cyllideb Incwm** | **(371,250)** | **(393,570)** | **(764,820)** | **(764,820)** | |

| ***Poblogaeth perthnasol*** | | |
|---|---|---|
| *Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy* | *108,381* | *114,290* |
| *Cyngor Sir Ddinbych* | *96,558* | *96,558* |
| *Cyngor Sir y Fflint* | *155,319* | *155,319* |
| *Cyngor Gwynedd* | *99,825* | *117,591* |
| *Cyngor Sir Ynys Môn* | *69,049* | *69,049* |
| *Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam* | *135,394* | *135,394* |
| *Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)* | *23,675* | |
| ***Cyfanswm poblogaeth*** | ***688,201*** | ***688,201*** |